Arweiniad i ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad ar y broses ar gyfer cyflwyno datganiad ymgeisydd i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig Ar gyfer pwy mae'r arweiniad hwn?

Mae'r arweiniad hwn ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau prif ardal yng Nghymru a'u hasiantiaid etholiad.

Mae'n ymdrin â'r broses ar gyfer cyflwyno datganiad ymgeisydd i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

Fe'i darperir gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) i gynorthwyo ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad i gyflwyno eu datganiad ymgeisydd i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (bwrwpleidlais.cymru) i'w gyhoeddi ar-lein.

Cysylltu â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol

Rydym ni yma i helpu, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am gyflwyno datganiad ymgeisydd i'w gyhoeddi ar y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig. Gallwch gysylltu â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol drwy anfon neges e-bost at emb@dbcc.gov.wales

Beth yw etholiadau prif ardal?

Mae prif ardal yn golygu sir neu fwrdeistref sirol.

Etholiad prif ardal yw etholiad i'r cyngor sir neu fwrdeistref sirol. Gelwir yr etholiadau hyn yn etholiadau cyngor lleol neu'n etholiadau llywodraeth leol hefyd, weithiau.

Nid yw etholiad cyngor cymuned neu dref yn etholiad prif ardal. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau cyngor cymuned a thref gyflwyno datganiad ymgeisydd i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

Os ydych yn ymgeisydd mewn etholiad cymuned neu dref, ni allwch gyflwyno datganiad ymgeisydd.

Beth yw datganiad ymgeisydd?

Caiff ymgeisydd gyflwyno datganiad ymgeisydd i'w gyhoeddi ar y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

Mae datganiad ymgeisydd yn wybodaeth ymgyrchu y mae ymgeisydd yn ei darparu i etholwyr i'w perswadio i bleidleisio drosto.

Nid oes rhaid i chi gyflwyno datganiad ymgeisydd i'w gyhoeddi, ond mae'n ffordd dda o gyfleu eich neges i'r pleidleiswyr yn y ward rydych yn sefyll ynddi.

DRAFT

Mae'n rhaid i'ch datganiad ymgeisydd gael ei baratoi gennych chi neu'ch asiant etholiad, a bodloni'r gofynion a amlinellir mewn deddfwriaeth. Os nad yw'n bodloni'r gofynion, ni fydd yn cael ei gyhoeddi ar y platfform.

Pa wybodaeth sy'n cael ei chynnwys mewn datganiad ymgeisydd?

Mae'n rhaid i'ch datganiad ymgeisydd:

- fod yn 180 o eiriau, ar y mwyaf
- bod yn Gymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith
- bod am yr ymgeisydd a'r rhesymau pam y mae'n ceisio cael ei ethol

Mae'n rhaid i'ch datganiad ymgeisydd beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd:

- sy'n anllad, yn sarhaus neu'n anweddus
- y byddai ei gyhoeddi'n debygol o fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd
- sy'n gyfystyr â hysbysebu neu a allai arwain at fantais fasnachol
- a allai gamarwain neu ddrysu etholwyr ynglŷn â'r system etholiadol a ddefnyddir yn yr etholiad neu effaith bwrw eu pleidlais

Cewch gynnwys un ffotograff, y mae'n rhaid iddo fod yn llun diweddar o'r ymgeisydd ac nad yw'n dangos unrhyw unigolyn arall.

Mae Rheoliadau Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025 yn gwneud yr ymgeisydd a'r asiant etholiad yn atebol am gynnwys datganiad ymgeisydd.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu datganiad ymgeisydd yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol.

Cyfieithu datganiad ymgeisydd

Ni all datganiad ymgeisydd fod yn fwy na 180 o eiriau yn Gymraeg neu Saesneg.

Ceir darparu cyfieithiad i'r Gymraeg neu'r Saesneg, hefyd. Mae'n rhaid i unrhyw gyfieithiad a ddarperir fod yn gyflawn ac yn gywir.

Nid yw'r cyfieithiad yn ffurfio rhan o'r terfyn 180 gair, ond mae'n rhaid iddo fod yn gyfieithiad union gywir o'r datganiad.

Os nad yw'ch cyfieithiad yn cyfleu cynnwys eich datganiad ymgeisydd yn union gywir, caiff ei wrthod.

DRAFT

Pwy all gyflwyno datganiad ymgeisydd i'w gyhoeddi ar y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig?

Dim ond chi (fel ymgeisydd – plaid wleidyddol ac Annibynnol) neu'ch asiant etholiad all gyflwyno datganiad ymgeisydd i'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

Pam mae'r Swyddog Canlyniadau wedi gofyn am fy nghyfeiriad e-bost?

Yn ystod y broses enwebu, bydd y Swyddog Canlyniadau'n annog yr holl ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad i roi eu cyfeiriad e-bost.

Er nad yw'n ofynnol rhoi cyfeiriad e-bost i gael eich enwebu'n ymgeisydd, os ydych eisiau defnyddio'r gwasanaeth ar-lein i gyflwyno'ch datganiad ymgeisydd, mae'n rhaid eich bod wedi rhoi eich cyfeiriad e-bost.

Mae'r Swyddog Canlyniadau'n gofyn am gyfeiriad e-bost fel y gall gysylltu â chi'n rhwydd os bydd angen yn ystod cyfnod yr etholiad. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi darparu adnodd i Swyddogion Canlyniadau – taflen gyswllt ymgeisydd – y bydd yn gofyn i chi a'ch asiant etholiad ei llenwi.

Bydd y Swyddog Canlyniadau'n rhannu eich cyfeiriad e-bost gyda'r Bwrdd Rheoli Etholiadol. Bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn defnyddio'ch cyfeiriad e-bost:

- i gynnal gwiriad diogelwch pan gyflwynir datganiad ymgeisydd i'r platfform i'w gyhoeddi ar-lein
- i gysylltu â chi'n uniongyrchol gyda gwybodaeth am gyflwyno datganiad ymgeisydd

Nid yw cyfeiriadau e-bost yn cael eu cyhoeddi ar y platfform.

Ni fydd yn bosibl cwblhau'r gwiriad diogelwch sy'n ofynnol i gyflwyno'ch datganiad ymgeisydd:

- os na roddwyd cyfeiriad e-bost i'r Swyddog Canlyniadau
- os defnyddir cyfeiriad e-bost gwahanol ar y platfform i'r un a roddwyd i'r Swyddog Canlyniadau

Newid asiant etholiad a benodwyd

Os bydd eich asiant etholiad a benodwyd yn newid ar ôl y dyddiad cau cychwynnol ar gyfer penodi ac mae'ch asiant etholiad newydd yn bwriadu cyflwyno'r datganiad ymgeisydd, dylech roi enw a chyfeiriad e-bost yr asiant etholiad newydd i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

DRAFT

Bydd hyn yn golygu y gellir cynnal y gwiriadau diogelwch priodol os cyflwynir datganiad ymgeisydd gan yr asiant etholiad sydd newydd ei benodi.

Beth yw'r broses ar gyfer cyflwyno datganiad ymgeisydd?

Gweler isod y camau i'w dilyn os ydych eisiau cyflwyno datganiad ymgeisydd i'w gyhoeddi ar-lein. Mae rhai sgrin luniau o'r camau wedi'u cynnwys i roi syniad i chi o beth y gallwch ddisgwyl ei weld wrth i chi symud trwy'r broses gyflwyno.

Gellir cyflwyno datganiadau ymgeisydd i'r platfform o ganol dydd ar ddydd Sadwrn 10 Ebrill 2027 ar ôl i'r cyfnod enwebu gau ychydig ddiwrnodau ynghynt.

Os ydych chi eisiau cyflwyno datganiad ymgeisydd i'w gyhoeddi ar-lein, ewch i'r adran Cyflwyno datganiad ymgeisydd | BwrwPleidlais.Cymru

Cyn i chi ddechrau'r broses o gyflwyno'r datganiad ymgeisydd, gwnewch yn siŵr eich bod:

- wedi cwblhau'r testun rydych eisiau ei gynnwys yn derfynol
- wedi gwirio bod y testun yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ac
- wedi gwirio nad yw'n cynnwys mwy na 180 o eiriau yn Gymraeg neu Saesneg

Os ydych yn mynd i gyflwyno llun, gwnewch yn siŵr ei fod yn llun diweddar o'r ymgeisydd, nad yw'n dangos unrhyw unigolyn arall a bod y ffeil wedi'i harbed ar y ffurf sy'n ofynnol.


Cam 1 – Cliciwch ar y botwm – Cyflwyno datganiad ymgeisydd



Cam 2 – Teipiwch enw llawn yr unigolyn sy'n cyflwyno'r datganiad ymgeisydd neu ei enw a ddefnyddir fel arfer. Gall fod yn chi eich hun neu'ch asiant etholiad ac fe ddylai gyfateb i'r wybodaeth a roddwyd i'r Swyddog Canlyniadau.

Rhowch gyfeiriad e-bost yr unigolyn sy'n cyflwyno'r datganiad ymgeisydd.


DRAFT



Defnyddir y wybodaeth hon yn rhan o'r gwiriad diogelwch.

Gwnewch yn siŵr ei bod yn gyflawn a bod y sillafu'n gywir. Fe allai'r gwiriad diogelwch fethu os rhoddir gwybodaeth anghyflawn neu anghywir ar y cam hwn.

Cam 3 – Gwiriwch a chadarnhewch y manylion ar gyfer yr unigolyn sy'n cyflwyno'r datganiad ymgeisydd



Os yw'r manylion ar y sgrin yn gywir, cliciwch y botwm Parhau.

Bydd cod dilysu yn cael ei anfon at y cyfeiriad e-bost a roddwyd gennych.

Mae cod dilysu yn god untro, unigryw, dros dro a ddefnyddir i gadarnhau pwy ydych a sicrhau bod y broses o gyflwyno datganiadau ymgeisydd yn ddiogel.


Bydd y cod yn ddilyniant byr o 6 rhif. Bydd angen i chi gofnodi'r cod hwn ar y wefan i symud ymlaen â'r broses o gyflwyno'ch datganiad ymgeisydd.

Fe allai gymryd ychydig funudau i'r cod gyrraedd. Gwiriwch eich mewnflwch e-bost a'ch ffolder sbam am neges oddi wrth y platfform (bwrwpleidlais.cymru).

Os nad ydych yn derbyn neges e-bost sy'n cynnwys y cod dilysu, dylech gysylltu â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol - emb@dbcc.gov.wales

Cam 4 – Cofnodwch y cod dilysu


Mae'r cod dilysu'n cynnwys 6 digid.



Copïwch y cod dilysu o'r neges e-bost a dderbynioch a chofnodwch ef yn y blwch. Pan fyddwch wedi cofnodi'r cod, cliciwch y botwm Parhau.

Os yw'r cod yn cyfateb, byddwch yn symud ymlaen i'r sgrin nesaf.


Os nad yw'r cod yn cyfateb, byddwch yn gweld neges wall ac yn gallu rhoi ail gynnig arni.



Adolygwch y manylion ar y sgrin nesaf a gwiriwch eu bod ar gyfer yr unigolyn sy'n cyflwyno datganiad ymgeisydd. Os yw'r wybodaeth yn gywir, cliciwch y botwm Cadarnhau. Os nad yw'r wybodaeth yn gywir, dylech gysylltu â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol – emb@dbcc.gov.uk.

Os ydych wedi'ch penodi'n asiant etholiad ar gyfer nifer o ymgeiswyr ac yn cyflwyno datganiadau ymgeisydd ar eu rhan, mae'n rhaid lanlwytho pob datganiad ymgeisydd yn unigol. Bydd angen i chi ddewis enw'r ymgeisydd a'r ardal berthnasol ar gyfer pob datganiad ymgeisydd rydych yn ei gyflwyno.

Cam 5 – Ychwanegu'ch datganiad ymgeisydd at y platfform



Cam nesaf y broses yw:

- teipio testun eich datganiad yn y blychau testun a ddarperir
- dewis yr iaith/ieithoedd y mae'r datganiad ymgeisydd wedi'i ysgrifennu ynddi/ynddynt – Cymraeg, Saesneg neu Gymraeg a Saesneg.

Mae'n rhaid i'ch datganiad ymgeisydd:

- fod yn 180 o eiriau, ar y mwyaf
- bod yn Gymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith
- bod am yr ymgeisydd a'r rhesymau pam y mae'n ceisio cael ei ethol


Gallwch wirio nifer y geiriau yn eich datganiad ymgeisydd trwy ei deipio mewn dogfen Word cyn ei deipio ar y platfform.

Ceir darparu cyfieithiad i'r Gymraeg neu'r Saesneg, hefyd. Ewch i'r adran Cyfieithu datganiad ymgeisydd i gael rhagor o wybodaeth.

Cam 6 – Ychwanegu llun at eich datganiad ymgeisydd (dewisol)

Gallwch ychwanegu llun at eich datganiad ymgeisydd os ydych eisiau.

Cewch gynnwys un llun. Mae'n rhaid i'r llun fod yn ddiweddar a pheidio â dangos unrhyw unigolyn arall.



Dim ond un ffeil y gallwch ei lanlwytho. Mae'n rhaid i'r ffeil llun fod ar ffurf JPEG neu PNG ac yn llai na 15MB o faint.

Cliciwch y botwm Dewis ffeil a phorwch i ddod o hyd i ble mae'r llun wedi'i arbed. Lanlwythwch y llun a chliciwch y botwm Parhau.

Cam 7 – Cadarnhau a datganiad

I gwblhau eich cyflwyniad, byddwch yn cael eich annog i dicio blwch nesaf at eich datganiad. Trwy dicio'r blwch, mae'r unigolyn sy'n cyflwyno'r datganiad ymgeisydd yn cadarnhau -

- bod y datganiad ymgeisydd wedi cael ei baratoi gan yr ymgeisydd neu asiant yr ymgeisydd,
- bod y datganiad ymgeisydd yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol, a
- bod yr ymgeisydd neu asiant yr ymgeisydd yn gyfrifol am y wybodaeth yn y datganiad ymgeisydd.

Ar ôl i chi gyflwyno'ch datganiad ymgeisydd:

- bydd y datganiad a'r llun (os ydych wedi cyflwyno un) yn cael eu hanfon at y Bwrdd Rheoli Etholiadol i'w hadolygu

DRAFT

bwrwpleidlais.cymru
vote.wales

Cymraeg

Home / For candidates / Submit a candidate statement

Check candidate statement details

Review the information below to make sure it is correct before submitting the candidate statement.

Ward	Abertillery and Six Bells, Blaenau Gwent	
Ballot paper description	Welsh Labour / Llafur Cymru	
Candidate	Joe Example	
Selection the language(s) the candidate statement is written in	English and Welsh	Change
English version	I have lived in Abertillery for over thirty years and I have served this community as a school governor and as a volunteer at the food bank. I am standing because our ward deserves a councillor who turns up, listens and follows through. My priorities are fixing our roads and pavements, protecting the bus routes that people rely on to get to work and to hospital appointments, and making sure local people have a say before decisions are taken about our high street. If you elect me I will hold surgeries every month and publish what I have done on your behalf.	Change
Welsh version	Rwyf wedi byw yn Abertyleri ers dros ddeng mlynedd ar hugain ac rwyf wedi gwasanaethu'r gymuned hon fel llywodraethwr ysgol ac fel gwirfoddolwr yn y banc bwyd. Rwy'n sefyll oherwydd bod ein ward yn haeddu cynghorydd sy'n troi i fyny, yn gwrando ac yn dilyn pethau drwodd. Fy mlaenoriaethau yw trwsio ein ffyrdd a'n palmentydd, diogelu'r llwybrau bws y mae pobl yn dibynnu arnynt, a sicrhau bod pobl leol yn cael dweud eu dweud cyn i benderfyniadau gael eu gwneud am ein stryd fawr.	Change
Candidate photograph		Change


Consent & Declaration

By submitting this candidate statement, I confirm that:

- The information provided in this submission is true and accurate to the best of my knowledge;
- I am a validly nominated candidate for the election or an election agent of such a candidate;
- This candidate statement contains only matter relating to the election, and does not contain any material that is obscene, offensive or indecent or the publication of which could amount to the commission of an offence;
- The photograph shows the candidate alone and contains no campaign material;
- Both the candidate on whose behalf this candidate statement is submitted, and their election agent, accept full responsibility for the contents of the statement and photograph, including any potential civil or criminal liability; and
- I authorise the Electoral Management Board to publish the candidate statement and photograph on the Welsh Elections Information Platform.

Submit candidate statement

DRAFT



Beth fydd yn digwydd ar ôl i ddatganiad ymgeisydd gael ei gyflwyno?

Bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn adolygu'r datganiad ymgeisydd ac yn gwirio ei fod yn ddilys. Byddwch yn cael neges e-bost sy'n cadarnhau bod eich datganiad ymgeisydd wedi cael ei gymeradwyo.

Bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cyhoeddi datganiadau ymgeisydd dilys ar y dyddiadau cyhoeddi a drefnwyd.

Os byddwch yn sylwi ar gamgymeriad ar ôl i chi gyflwyno'ch datganiad ymgeisydd, bydd angen i chi gysylltu â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol drwy anfon neges e-bost at emb@dbcc.gov.wales

Os bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn penderfynu bod datganiad ymgeisydd yn annilys, caiff ei wrthod.

Os gwrthodir eich datganiad ymgeisydd, bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn anfon neges e-bost atoch i roi gwybod i chi. Os gwrthodir eich datganiad ymgeisydd, efallai y bydd modd ailgyflwyno datganiad ymgeisydd diwygiedig. Bydd hyn yn dibynnu ar bu'n a oes amser i'w ailgyflwyno erbyn y dyddiad(au) cau ychwanegol.

DRAFT

Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno datganiad ymgeisydd

Dyddiad cau – derbyn gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol	**Cyhoeddi**
Dydd Mawrth 13 Ebrill 2027	Dydd Iau 15 Ebrill 2027

Bydd dyddiadau cyhoeddi ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr sy'n methu'r prif ddyddiad cau ar gyfer cyhoeddi. Bydd datganiadau ymgeisydd yn cael eu cyhoeddi hefyd ar ddydd Iau 22 Ebrill 2027 a dydd Iau 29 Ebrill 2027 ac mae'n rhaid i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol eu derbyn dau ddiwrnod gwaith ymlaen llaw.

Dyddiad cau – derbyn gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol	**Cyhoeddi**
Dydd Mawrth 20 Ebrill 2027	Dydd Iau 22 Ebrill 2027
Dydd Mawrth 27 Ebrill 2027	Dydd Iau 29 Ebrill 2027

Yn ôl y ddeddfwriaeth, y dyddiad olaf y gall y Bwrdd Rheoli Etholiadol gyhoeddi unrhyw ddatganiad ymgeisydd yw dydd Iau 29 Ebrill 2027. Felly, ni fydd unrhyw ddatganiad ymgeisydd a gyflwynir i'r platfform ar ôl canol nos ar ddydd Mawrth 27 Ebrill 2027 yn cael ei gyhoeddi gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol.

Os na allwch gyrchu neu ddefnyddio'r wefan, cysylltwch â ni i gael gwybodaeth am gyflwyno datganiad ymgeisydd â llaw.

DRAFT